



**Arolygiaeth Gofal
Cymru**
Care Inspectorate
Wales



Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Gylch Meithrin Felinfoel

**Canolfan Integredig
Ysgol Y Felin
Ynyswen
Felinfoel, Llanelli
SA14 8BE**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn â Chylch Meithrin Felinfoel

Enw'r lleoliad	Cylch Meithrin Felinfoel
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal dydd llawn
Person(au) cofrestredig	
Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol)	Rhian Davies a Helen Wynne
Person â gofal	Mair Billington
Nifer y lleoedd	24
Amrediad oedran y plant	2-4 oed
Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed	9 sy'n dair oed
Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar	9
Diwrnodau / amseroedd agor	Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.00 - 11.30 a 12.15 - 14.45
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Oes
Iaith y lleoliad	Cymraeg
A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn?	Ydyw
Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol	Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC	Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad yn dilyn cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn	Chwefror 2015
Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn	08/11/2022
<p>Mae Cylch Meithrin Felinfoel wedi ei leoli ar dir yr ysgol gynradd ym mhentref Felinfoel ar gyrion tref Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ardal yn un gymharol ddifreintiedig. Mae ychydig o'r plant yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan ychydig iawn anghenion dysgu ychwanegol.</p>	

Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Argymhellion

A1 Cryfhau cofnodion driliau tân

A2 Sicrhau bod ymarferwyr yn annog y plant i ymateb yn gyson yn y Gymraeg, lle bo'n briodol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Lles:

Mae bron bob un plentyn yn teimlo'n hapus yn y lleoliad ac wedi ymgartrefu'n dda yno. Mae'r rhan fwyaf yn setlo'n gyflym wrth gyrraedd ac yn trosglwyddo oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr heb drafferth. Maent yn gwenu wrth gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae'r ychydig iawn sy'n ansicr ac yn bryderus yn ymlacio'n gyflym iawn wedi iddynt dderbyn cysur gan ymarferwyr.

Mae bron bob un plentyn yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau. Er enghraifft, maent yn rhoi'r gorau i'w gweithgareddau yn ddiffwdan pan fydd ymarferwyr yn dweud ei bod yn amser tacluso. Mae'r plant yn ffurfio perthynas gadarnhaol ag ymarferwyr a'u cyfoedion.

Mae gan blant lais cryf ac maent yn gwneud penderfyniadau am yr hyn maent yn dymuno'i wneud. Mae bron pob un yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal chwarae i'r llall gan ddewis tegantau ac offer priodol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae un plentyn yn defnyddio teclyn magnetig i gasglu'r disgiau metel cyn eu gosod ar linell rif. Yn ogystal, maent yn dewis eistedd wrth ochr eu ffrindiau yn ystod amser byrbryd ac amser cylch. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn brysur weithredol wrth ymgymryd â'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig iddynt. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd ati i hunangofrestru yn syth ar ôl cyrraedd gan osod eu llun ar y goeden.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda. Maent yn cymryd eu tro ac yn rhannu adnoddau'n aeddfed, er enghraifft wrth rannu'r siapiau wrth adeiladu castell. Wrth chwarae tu allan, mae'r plant yn cymryd tro wrth iddynt fynd ar y tegan mawr sy'n troi a throi ac wrth iddynt wthio'r cerbydau i lawr y bibell cardfwrdd.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau a ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'u cyfoedion. Er enghraifft, maent yn rhoi cwtsh i'w gilydd amser cylch. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn mynegi eu mwynhad yn gyson trwy wenu a chwerthin. Er enghraifft, maent yn hapus ac yn frwdfrydig wrth bwysu a mesur cynhwysion i goginio bisgedi ac wrth ychwanegu lliw i'r reis a'i gymysgu er mwyn creu siâp pabi. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol wrth ddefnyddio'r ystod dda o offer a ddarperir ar eu cyfer. Maent yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau priodol wrth ddringo a chydbwysu ar gyfarpar anturus tu allan. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda wrth arllwys eu diod, dewis ffrwyth o bowlen a thaenu menyn ar dost yn ystod amser byrbryd. Yn ogystal, mae bron bob un yn golchi a sychu eu dwylo a gosod y tywel papur yn y bin yn annibynnol.

Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

Gofal a datblygiad:

Mae perthynas waith naturiol ac agos iawn yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn, yn parchu eu diddordebau a'u hoffterau, ac yn ymateb yn briodol i'w gofynion personol. Maent yn gadael i blant ddewis a dethol eu gweithgareddau ac adnoddau eu hunain y tu mewn a thu allan. Maent yn ymyrryd yn briodol trwy eu holi'n gelfydd i geisio ehangu eu dealltwriaeth o'r medrau penodol sy'n codi'n naturiol yn y dasg pan fydd yn addas gwneud hynny.

Mae ymarferwyr yn cyfathrebu'n dda â'r plant, ac yn dathlu eu llwyddiannau'n gyson gan roi clod iddynt, lle bo'n briodol. Maent yn rhoi cyfleoedd i blant fod yn annibynnol trwy ddewis 'helpwr y dydd' sydd â'r cyfrifoldeb i ddarparu platiau i'w grŵp adeg byrbryd, ynghyd â helpu'r ymarferwyr yn ystod amser cylch. Maent yn darparu cyfleoedd cyson a defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau annibynnol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i dacluso adnoddau ac offer ar ôl eu gweithgaredd, cyn eu hannog i godi a chario cadair yn annibynnol i'r gornel adeg amser cylch.

Mae ymarferwyr yn cynnig ystod eang o weithgareddau a phrofiadau diddorol sy'n datblygu gallu'r plant i gwblhau gweithgareddau yn ystyrlon a chyda gofal. Maent yn fodolau rôl cadarnhaol. Maent yn sicrhau bod plant yn deall bod angen iddynt gymryd gofal wrth ymdrin â chylllell i dorri'r llysiâu yn y tŷ bach twt ac wrth ddefnyddio siswrn i dorri amlinelliad pabi i greu torch.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos i ddiwallu anghenion y plant. Maent yn cydweithio â rhieni a gofawyr er mwyn datblygu a chefnogi plant yn emosiynol, yn gymdeithasol ac yn ddatblygiadol. Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o sut i adnabod a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ôl yr angen.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan bron pob ymarferydd ddealltwriaeth dda iawn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn cwblhau asesiadau risg effeithlon ac yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn i sicrhau goruchwyliaeth ofalus mewn perthynas ag iechyd a diogelwch y plant. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach yn llwyddiannus trwy ddarparu byrbryd iachus a maethlon i'r plant. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion trylwyr o ddamweiniau a digwyddiadau gan gynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau hyn. Serch hynny, nid yw'r cofnodion ymarferion tân yn nodi'n ddigon manwl unrhyw heriau a gafwyd yn ystod yr ymarfer.

Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu ysgogol a diddorol i'r plant, ac yn rhoi cyfleoedd cyfoethog a naturiol iddynt ddatblygu eu chwilfrydedd yn barhaus. Maent yn annog y plant i arwain eu dysgu eu hunain yn lled llwyddiannus trwy roi cyfleoedd iddynt ddewis pa heriau maent am roi tro arnynt a thrwy roi rhyddid iddynt symud o un gweithgaredd i'r llall y tu mewn a thu allan. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i gynllunio'r gweithgareddau hyn, sy'n seiliedig ar ofynion y Cwricwlwm i Gymru. Maent wedi rhoi ffocws clir yn ddiweddar ar gynllunio ymatebol gan fanteisio

ar gyfleoedd priodol sy'n codi'n naturiol yn y chwarae i ddatblygu medrau penodol. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gyfri bisgedi wrth roi eisin coch arnynt. Maent yn ystyried diddordebau'r plant wrth baratoi heriau ar eu cyfer ac yn adeiladu'n uniongyrchol ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol yn barhaus. Mae hyn yn sicrhau bod dilyniant priodol i'r cynllunio.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau gwrando, darllen ac ysgrifennu cynnar y plant yn effeithiol. Maent hefyd yn gwneud ymgais reolaidd i ddarparu cyfleoedd penodol i blant glywed a defnyddio geirfa ac ymadroddion Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys gorchmynion a chyfarwyddiadau syml a chyfarwydd yn ystod amser byrbryd ac amser cylch. Maent yn hybu ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol, er enghraifft trwy ganu caneuon Cymraeg a dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen, er enghraifft. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn annog y plant yn ddigonol i ymateb yn y Gymraeg, trwy gyfieithu eu hymatebion ac ailadrodd y gair Cymraeg priodol iddynt yn barhaus. O ganlyniad, mae medrau llafar Cymraeg llawer o'r plant yn parhau i fod yn sylfaenol.

Hyrwyddir datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau hyfryd, sy'n annog y plant i fod yn chwiilfrydig ac i werthfawrogi rhyfeddodau'r byd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i blant blannu bylbiau, trafod y saith cysgadur, ac i arsylwi ar ddail amryliw yn yr hydref a phetalau coch y pabi adeg Sul y Cofio.

Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar annog gonestrwydd, tegwch a pharch yn eu holl weithgareddau ac yn sicrhau bod plant yn deall bod angen iddynt drin ei gilydd, eu hamgylchedd a'u hadnoddau gyda gofal. Mae hyn yn amlwg iawn wrth iddynt gymryd eu tro adeg byrbryd, a gwrando ar hanesion ei gilydd yn ystod amser cylch.

Mae ymarferwyr yn ymgysylltu'n llwyddiannus â rhieni a gofalwyr i ganfod eu barn nhw am gryfderau a diddordebau eu plant ynghyd ag unrhyw feysydd y maent yn ystyried y mae angen iddynt eu datblygu. Mae'r ymarferwyr i gyd yn deall eu rolau yn dda fel gweithwyr allweddol ar gyfer grwpiau o blant ac yn cyfrannu'n fuddiol at ddiweddarau cofnodion cynnydd ar ffurf llwybr dysgu i bob plentyn yn rheolaidd. Maent yn arsylwi ac yn asesu plant yn gyson er mwyn adnabod y camau naturiol nesaf iddynt. Defnyddir y canfyddiadau hyn yn briodol i gynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae buddiol sy'n diwallu anghenion a diddordebau y rhan fwyaf o'r plant, yn cynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yr amgylchedd:

Mae'r lleoliad yn ddiogel ar gyfer y plant. Mae ansawdd yr amgylchedd yn hynod gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r ymarferwyr yn trefnu bod yr ardaloedd yn ddiddorol ac yn darparu profiadau cyffrous i'r plant. Mae'r ystafell yn olau a deniadol a'r ardal allanol yn lliwgar. Trwy arddangos a dathlu gwaith y plant ar waliau'r ystafell, mae ymarferwyr yn creu ymdeimlad o falchder a pherthyn i'r plant, ac yn creu naws groesawgar i bawb sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae'r drysau o'r brif ystafell i un o'r ardaloedd allanol yn agored drwy'r sesiwn ac, o ganlyniad, mae'r plant yn dewis ble maent am chwarae. Mae'r amgylchedd allanol yn cynnig cyfleoedd arbennig o dda a chyffrous i blant chwarae a dysgu. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau ac offer pwrpasol ar gael iddynt, gan

gynnwys ffrâm ddringo, twba tywod, ardal adeiladu a llwyfan perfformio. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardal allanol yn cael ei defnyddio'n ddyddiol fel rhan annatod o'r ddarpariaeth.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau cyfoethog a phenodol i'r plant er mwyn datblygu eu medrau a'u gwybodaeth. Mae'r adnoddau'n addas ac yn briodol i oedrannau'r plant ac mae'r ardaloedd yn cynnwys eitemau pwrpasol sy'n cyfoethogi'r chwarae, fel defnyddio llyisiau ac offer go iawn yn yr ardal chwarae rôl. Mae'r adnoddau tu mewn a thu allan o ansawdd uchel iawn, ac maent yn lân ac yn hawdd eu cyrraedd, sy'n galluogi'r plant i wneud dewisiadau yn annibynnol. Mae'r ystod eang o adnoddau yn hybu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae doliau o wahanol ddiwylliannau a chymeriadau ac adnoddau sy'n hybu cyfle cyfartal o fewn cyrraedd y plant yn barhaus. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn cadw'r amgylchedd a'r offer yn lân ac mewn cyflwr priodol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch effeithiol ar waith. Mae'r asesiadau risg yn briodol a chyfoes ac yn adnabod, lleihau ac atal risg i blant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwyllo'n ofalus mewn amgylchedd diogel.

Arweinyddiaeth a rheolaeth:

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Mae hon yn seiliedig ar sicrhau bod staff yn cydweithio fel cymuned i greu amgylchedd hapus a diogel sy'n canolbwyntio ar anghenion y plant. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol mewn amgylchedd hapus.

Mae arweinwyr yn parchu a gwerthfawrogi gwaith yr ymarferwyr. Maent yn ystyried eu barn, yn eu cefnogi'n dda ac yn rhoi cyfleoedd cyfoethog iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn eu galluogi i wneud eu gorau dros y plant a chydymffurfio â'r weledigaeth.

Mae gan yr unigolion cyfrifol wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd. Maent yn ymweld yn gyson ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r arweinydd i'w galluogi i'w chefnogi'n effeithiol. Ar y cyd, maent yn hyrwyddo arferion da o ran addysgu a sicrhau bod yr amgylchedd yn un diogel a gofalgarn i'r plant.

Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn rhoi gwybodaeth ddigonol i rieni/gofalwyr wneud y dewis cywir am ofal eu plant.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau addas i werthuso gwaith y lleoliad. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl ymarferwyr. Maent yn adnabod yn gywir yr hyn sy'n effeithiol ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r trefniadau'r lleoliad i gynllunio ar gyfer gwella yn glir ac yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall y camau y mae angen eu cymryd i sicrhau gwelliant ar gyfer pob blaenoriaeth. Er enghraifft, maent wedi mireinio'r cyfleoedd sydd ar gael i'r plant wneud marciau yn ddiweddar, sydd wedi codi eu hyder i ymarfer eu medrau ysgrifnu cynnar.

Mae digon o ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc ac mae'r rhain yn cael eu trefnu'n dda. Mae eu rolau a chyfrifoldebau yn glir, mae cymarebau da o oedolion i blant ac mae cynlluniau addas wrth gefn rhag ofn y bydd ymarferwyr yn absennol. Ceir system effeithiol o oruchwylio a gwerthuso ymarferwyr yn flynyddol sy'n arwain at dargedau priodol y cytunwyd arnynt.

Mae gan y lleoliad hanes llwyddiannus o weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Mae'r rhain yn cynnwys yr ysgol gynradd leol y mae'n rhannu adeilad â hi, mudiadau a swyddogion sy'n cefnogi gwaith meithrinfeydd a'r nyrs gymunedol.

Mae'r lleoliad yn rhannu gwybodaeth bwysig yn gyson gyda rhieni am ei bolisiâu a gweithdrefnau trwy gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb â nhw cyn i'w plentyn ddechrau. Maent hefyd yn eu diweddarau gan ddefnyddio cylchlythyr tymhorol, platfform cyfryngau cymdeithasol caeedig a thrwy siarad â nhw ar ddechrau a diwedd y sesiwn, yn ôl yr angen.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (<http://careinspectorate.wales>) (www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.